yma i helpu
Môn CF
here to help

Canllawiau

'Grant Busnesau Bach' Môn CF

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

UK Government
Llywodraeth y DU

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

Canllawiau

Grant dewisol yw hwn sydd wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU ac yn cael ei weithredu gan Gymunedau'n Ymlaen Môn ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau'n sy'n masnachu'n barod, ar Ynys Môn.

Pwrpas y grant

Pwrpas y grant yw cefnogi unigolyn sy'n bwriadu cychwyn busnes ar yr ynys yn ogystal â busnesau sydd eisoes yn masnachu. Bydd y grant yma'n ychwanegol i unrhyw gymorth busnes arall sydd ar gael drwy asiantaethau megis Busnes Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn neu asiantaethau cyffelyb ac adrannau Llywodraeth.

Cymunedau'n Ymlaen Môn (Môn CF)

Mae Môn CF yn cynnig cymorth wedi ei deilwrio'n bwrpasol ar gyfer busnesau micro, bach a chanolig sy'n cychwyn ar Ynys Môn. Bydd y cymorth yn eich galluogi i ddeall beth yn union yw eich anghenion ac yna gallwn ddarparu pecyn cymorth a all gynnwys deunydd ar-lein, gweithdai a gweminarau yn ogystal â chynghorwyr a mentoriaid cyffredinol ac arbenigol. Yn aml gall y cymorth yma gael ei gynnig mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill gan gynnwys Busnes Cymru. Yn ogystal â'ch cynorthwyo i wneud cais am ein grant, gall Môn CF ddarparu cymorth ychwanegol ym meysydd fel recriwtio staff, eich presenoldeb ar y we, hyfforddiant a gwasanaeth cyfeirio at rwydwaith o gymorth ychwanegol.

Pwy all wneud cais?

Mae grant hyd at £2,000 ar gael i unigolion sy'n bwriadu cychwyn busnes neu ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n chwilio am gymorth ariannol;Gall unigolion neu gwmnïau wneud cais.

Meini Prawf Cymhwyso

I wneud cais fe ddylech chi fod:

- yn 16 mlwydd oed neu hyn
- yn bwriadu cychwyn busnes fel rhywun hunan cyflogedig ar Ynys Môn cyn diwedd **11/2024**

Neu

- os ydych eisoes yn fusnes sy'n bodoli ac yn chwilio am gymorth

Mae'n rhaid i'ch busnes fod wedi ei leoli ar Ynys Môn.

Meini Prawf Anghymwys

- Estheteg (Botox, fillers, a.y.b.)
- AirBnB (nad yw'n brif incwm)
- Isgontractwyr
- Wedi derbyn grant yn flaenorol gan Môn CF

Gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r grant

Mae'r grant yma ac unrhyw gymorth busnes cysylltiedig yn ceisio cynorthwyo'r unigolion a'r busnesau hynny sydd angen cymorth ariannol ychwanegol un ai i sefydlu busnes o'r newydd neu i ddatblygu busnes sy'n bodoli'n barod.

Gall ymgeiswyr sy'n bwriadu cychwyn busnes ei hunain dderbyn cymorth drwy Môn CF a'n partneriaid gan gynnwys Busnes Cymru a'r Hwb Menter yn M-SParc.

Bydd cymorth ar gael os bydd angen gan ymgeiswyr hefo'r broses gwneud cais.

Bydd unrhyw fusnes newydd angen Cynllun Busnes a Rhagolwg Llif Arian fel rhan o'r broses ceisio am grant. Bydd cymorth i greu dogfennau o'r math yma ar gael drwy Môn CF, Busnes Cymru a'r Hwb Menter.

Bydd busnesau sy'n bodoli eisoes ac yn ceisio am grant angen darparu cyfrifon diweddar neu brawf eu bod wedi cofrestru hefo HMRC (UTR), ynghyd â chyfriflenni banc fel rhan o'r broses ceisio am grant. Bydd cwmnïau cyfyngedig ddarparu tystiolaeth o'u Rhif Cofrestru Cwmni.

Bydd ymgeiswyr yn cael Mentor Busnes Môn CF wedi ei neilltuo ar eu cyfer i'w cynorthwyo i gwblhau'r ffurflen gais a rhannu gwybodaeth am gymorth ychwanegol sydd ar gael.

Bydd angen i ymgeiswyr ddatgan nad oes ganddynt arian arall ar gael (neu ddiffyg digon o arian) neu does dim modd iddynt gael arian o rywle arall i'w cynorthwyo i sefydlu busnes newydd neu i gynnal costau rhedeg eu busnes.

Pwrpas y grant i'w cynorthwyo unigolion a busnesau drwy gyfrannu at gostau angenrheidiol cychwyn neu gynnal busnes (mae'n rhaid cynnwys manylion y costau yn y ffurflen gais).

Dim ond at gostau refeniw y gellir defnyddio'r grant. Mae hyn yn golygu dim ond gwariant sy'n ymddangos yn eich Cyfrif Elw & Cholled sy'n gymwys.

Gall wariant cymwys olygu rhai o'r canlynol

- Tŵls/offer
- Dodrefn
- Offer TG (dim meddalwedd – oni bai i gychwyn busnes)
- Hyfforddiant
- Hysbysebu
- Gwefannau

Gwariant nad yw'n gymwys

- Stoc
- Nwyddau Traul
- Costau rhedeg busnes a gorbenion
- Rhent/Les
- Costau teithio

Nodwch – nid yw'r rhestr yma'n gyflawn

Noder: Nid pwrpas y grant yw cyfrannu at eich cyflog o'r busnes na chostau dyddiol eich menter. Ni ellir defnyddio'r grant i dalu dyledion. Ni ellir ei ddefnyddio i dalu rhent na phrynu stoc.

- Mae'r ymgeisydd yn bwriadu creu busnes sydd, neu'n debygol o fod, yn brif incwm neu gyflogaeth iddynt.
- Bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i brofi fod y busnes wedi dechrau masnachu e.e.. copi o'r anfoneb gyntaf a bod camau wedi cymryd i gofrestru'r busnes (e.e.. fel cwmni cyfyngedig/hunan gyflogaeth drwy HMRC). Bydd y wybodaeth yma'n cael ei gasglu wedi i'r fenter gychwyn.
- Bydd angen i gwmnïau sy'n masnachu eisoes i ddangos cyfrifon gweithredol a chyfrifon banc sy'n dangos incwm a gwariant.
- Dim ond un cais gall bob busnes ei gyflwyno – pa un ai'n fusnes newydd neu'n bodoli eisoes.
- Bydd angen i'r unigolyn sydd angen y grant wneud y cais. Ni allwn dderbyn cais wedi ei gyflwyno gan asiant.
- Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddatgan os ydynt wedi derbyn unrhyw gymorth ariannol gan Awdurdod Lleol neu Lywodraeth yn y 3 blynedd ariannol ddiwethaf.
- Gan y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn buddsoddiad cyhoeddus bydd disgwyl iddynt adolygu eu hymarferion masnachu yng nghyd-destun cynaliadwyedd a chydraddoldeb.

Y math o fusnes na fydd yn derbyn grant

Unrhyw fusnes sy'n gysylltiedig ag hyrwyddo barn wleidyddol neu grefyddol; gamblo; pornograffi; cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgaredd anghyfreithlon ac unrhyw fusnes a ystyrir yn 'newydd a chynhennus' gan Lywodraeth y DU.

Faint o arian sydd ar gael?

Mae grant hyd at £2,000 ar gael ar gyfer bob busnes (caniateir un cais yn unig ar gyfer bob busnes). Bydd angen i ymgeiswyr gadarnhau nad oes modd iddynt gychwyn neu ddatblygu busnes heb y grant, gan nad oes ganddynt ddigon o arian eu hunain ar gael. Bydd Môn CF yn defnyddio disgresiwn wrth ddyfarnu grantiau yn seiliedig ar y dystiolaeth o angen sydd ynghlwm â'r cais am grant gan y busnes. Os bydd eich cais yn llwyddiannus byddwn yn talu'r grant mewn un o'r ffyrdd canlynol:

Opsiwn 1 – bydd yr ymgeisydd yn prynu'r eitem sydd wedi ei gymeradwyo am grant ac yna'n gwneud cais am arian yn ôl gan Môn CF – gyda thystiolaeth fod y gwariant wedi'i wneud.

Opsiwn 2 – bydd Môn CF yn prynu'r eitem ar ran yr ymgeisydd ac yn trosglwyddo perchnogaeth o'r eitem i'r busnes.

Sut i wneud cais

- Bydd bob ymgeisydd yn derbyn cynnig o gymorth i gwblhau'r ffurflen gais a sut i sicrhau'r dystiolaeth sydd ei angen hefo'r cais. Cynghorydd Busnes fydd wrth law i roi'r cymorth – un ai'n gyflogedig gan Môn CF neu un o'n partneriaid megis Busnes Cymru neu'r Hwb Menter.
- Bydd angen eibostio'r ffurflen gais a thystiolaeth berthnasol at grants@moncf.co.uk er mwyn cael ei asesu a'i wirio.
- Ein nod yw cadarnhau derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Bydd y Grant Busnesau Bach ar agor i geisiadau o **06/09/2023** (rownd gyntaf). Bydd ffurflen cais ar gyfer Rownd 2 ar gael o **11/04/2024** – bydd dyddiad cau'r ceisiadau yn ddibynnol ar faint o arian sydd ar gael i'w dosbarthu fel grantiau. Os yw'r arian wedi ei wario'n llwyr cyn y dyddiad hwn mi fydd y cynllun yn dod i ben.
- Os oes gennych unrhyw gwestiwn cyn gwneud cais neu unrhyw bryder nad ydych yn gymwys i wneud cais neu gael cymorth busnes oherwydd rhesymau meddygol/technegol/gofalu am eraill, yna dewch i gysylltiad â Môn CF er mwyn i ni allu trafod sut y gallwn eich cynorthwyo.

Amserlen

Mi fydd yna 2 Rownd o grantiau. Cewch wybodaeth am ddyddiad cau ceisiadau bob Rownd ar wefan Môn CF.

Canllawiau ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Gais

Adran 1 – Gwybodaeth amdanoch chi

Bydd yr adran yma'n gofyn am wybodaeth amdanoch chi – yr ymgeisydd. Gwnewch yn siŵr fod y wybodaeth yn gywir.

Tystiolaeth fydd ei angen – byddwn angen 2 fath o dystiolaeth i chi brofi pwy ydych chi. Pasbort Dilys/Trwydded Yrru/Llun ohonoch chi.

Rhywbeth i gadarnhau lle rydych chi'n byw. Rhaid i ddyddiad y dystiolaeth fod o fewn y 3 mis diwethaf.
Cyfriflenni Banc wedi eu dyddio o fewn y tri mis diwethaf.

Adran 2 – Eich Busnes

Rhowch fanylion am eich busnes newydd os gwelwch yn dda – enw eich busnes, math o fusnes, a'r dyddiad cychwyn ar gyfer y fenter. Bydd disgwyl i chi ddarparu achos busnes ynghlwm â'ch ffurflen gais.

Adran 3 - Cyllid

Gadewch i ni wybod faint o grant sydd ei angen arnoch. Gallwch wneud cais am uchafswm o £2,000. Byddwn angen gwybod am beth fyddwch yn defnyddio'r grant ar ei gyfer a bydd angen i chi restru eich gofynion a pham yr ydych angen yr eitem. . Bydd angen dyfynbris ar gyfer bob eitem Os oes mwy na 5 eitem allwch chi eu grwpio'n briodol. Byddwn angen gwybod os ydych yn bwriadu cyflogi staff ac os ydych, beth fydd eu swyddi. Rydym angen gwerthuso effaith y grant a pha wahaniaeth mae'n debygol o wneud i'ch cynorthwyo i sefydlu neu ddatblygu'ch busnes.

Adran 4 – Manylion Banc

Bydd angen y wybodaeth hon er mwyn talu'r grant i chi. Gwnewch yn siŵr fod y manylion yn gywir. Bydd manylion anghywir yn arwain at ddiffyg taliad neu oedi yn eich taliad.

Adran 5 - Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) a Dderbyniwyd

Mae'r grant hwn yn cael ei ddarparu o dan y Cynllun Cymorth Ariannol Lleiaf o'r Ddeddf Rheoli Is-daliadau 2022. Mae hyn yn caniatáu i gyllid cyhoeddus o hyd at £315,000 i sefydliad sengl dros gyfnod treigl o dair blynedd ariannol. Gall cyllid gynnwys grantiau, benthyciadau, gwasanaethau a ddarperir yn rhad ac am ddim a rhyddhad ardrethi. Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddyfarnwyd i chi dros y tair blynedd diwethaf o dan y Rheoliadau Cymorth Llywodraeth yr UE,argofion ar Gymorth.

Adran 6 – Datganiad

Mae'n hynod o bwysig eich bod yn darllen y ddogfen canllawiau hon yn ofalus ac eich bod yn deall y Telerau ac Amodau sydd ynghlwm â'r cais am grant. Os ydych yn cytuno â'r termau ac amodau o fewn y ddogfen hon ac yn gallu cadarnhau bod y wybodaeth a roddir gennych yn gywir, yna dylech roi marc yn y blwch, cynnwys unrhyw lofnodau a dyddiadau a chyflwyno eich cais drwy e-bost i'r cyfeiriad canlynol **grants@moncf.co.uk**

Beth sy'n digwydd wedi i ni dderbyn eich cais?

Ar ôl i ni dderbyn eich cais, bydd ein tîm yn cadarnhau derbyn eich cais ac yna'n mynd ati i wirio'ch cais. Bydd angen i bob cais gael ei gymeradwyo gan Fentor Môn CF (er mwyn cadarnhau fod cymorth ac arweiniad priodol wedi ei roi cyn i'r cais gael ei wneud, fod y syniad ar gyfer y busnes newydd neu ddatblygu'r busnes yn hyfyw a chynaliadwy a bod pob cost refeniw yn berthnasol a chymwys ar gyfer y syniad busnes).

Bydd penderfyniadau ar gyfer pob cais yn seiliedig ar y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, unrhyw dystiolaeth sydd yn rhan o'r cais (gan gynnwys yr achos dros gefnogi'r cais/rhestr o gostau refeniw a chadarnhad o gefnogaeth cynghorydd) a gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach. Os yw eich cais yn cael ei gymeradwyo byddwch yn derbyn llythyr yn cadarnhau'ch grant drwy e-bost ynghyd â dolen i'r termau ac amodau er mwyn i chi eu deall. Bydd angen i chi ymateb i'r cynnig hwn o fewn 7 diwrnod gwaith neu bydd y grant yn cael ei atal. Bydd disgwyl i chi gadarnhau derbyn y grant drwy e-bost.

Fel rhan o'r telerau ac amodau yn dilyn derbyn grant rydych yn cytuno i dderbyn cyswllt gennym wedi i chi dderbyn yr arian. Mae hyn yn syml er mwyn i Môn CF allu profi effeithiau positif y grant ar fusnesau lleol ac at ddibenion adrodd yn ôl mewnol Môn CF. Yng nghyd-destun busnesau newydd byddwn yn ceisio tystiolaeth i gadarnhau fod y fenter neu gwmni wedi cychwyn masnachu e.e. copi o'r anfoneb gyntaf, prawf fod yna gyfrif banc wedi ei agor a'ch bod wedi cymryd camau i gofrestru'r fenter un ai hefo Companies House (cwmnïau cyfyngedig) neu HMRC (hunan cyflogedig).

Mae hwn yn grant ddewisol ac nid oes trefn apêl.

Ad-dalu Grant

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Môn CF ofyn am ad daliad y grant yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd os na ddefnyddir y grant at ddibenion y pwrpas a roddwyd ar y ffurflen gais neu os nad yw'r ymgeisydd yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant.
Felly, yn syml, mae'r ymgeisydd yn gwneud cytundeb hefo Môn CF ac felly mae hawl gennym i ofyn am gadarnhad o wariant wedi i chi dderbyn y grant.

Termau & Amodau ar gyfer Ceisiadau

1. Mae talu'r grant yn gwbl ddibynnol ar benderfyniad Môn CF.
2. Gall Môn CF ddal arian yn ôl neu ofyn am arian yn ôl o dan rai amgylchiadau.
3. Bydd taliadau yn cael eu gwneud drwy drosglwyddiad banc i mewn i'r cyfrif banc o'ch dewis chi, wedi i ni dderbyn tystiolaeth ddigonol..
4. Bydd disgwyl i'r unigolyn neu gwmni sy'n derbyn y grant sicrhau, ar gyfer dibenion y Prosiect, eu bod yn cydymffurfio â Chanllawiau Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU. Ceir manylion pellach am y canllawiau penodol yn ymwneud â Rheoli Cymhorthdal Llywodraeth y DU ar-lein. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd sicrhau fod y grant yn cydymffurfio â rheolau Cymorth y Wladwriaeth gan mae o dan y rheolau hyn y dyfarnir y grant
5. Darperir cymorth o dan y Cynllun Cymorth Ariannol Lleiaf o'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Mae hyn yn caniatáu dyfarnu cyllid cyhoeddus o hyd at £315,000 i sefydliad sengl dros gyfnod treigl o dair blynedd ariannol. Gall cyllid gynnwys grantiau, benthyciadau, gwasanaethau a ddarperir yn rhad ac am ddim a rhyddhad ardrethi. Rydym yn gofyn ichi gyflwyno gwybodaeth am unrhyw gymorth a roddwyd o dan reoliadau de minimis yr UE, unrhyw MFA blaenorol ac unrhyw gymorthdaliadau a roddwyd fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE yn ystod y flwyddyn gyllidol gyfredol a'r ddwy flynedd gyllidol flaenorol.
6. Noder – mae posibl na fydd gwybodaeth a gesglir gan Môn CF yn dod o dan reolau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Y rheswm am hyn yw bod Môn CF yn elusen gofrestredig ac o'r herwydd yn eithriad o dan y ddeddf. Yn ymarferol, ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth a roddir i ni gennych chi neu rannu unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif oni bai ein bod wedi derbyn eich cytundeb ymlaen llaw. Yn y pen draw, penderfyniad Môn CF fydd hi os yw eich gwybodaeth i'w ddatgelu neu ddim, yn unol ag unrhyw ddisgwyliadau cyfreithiol.
7. Drwy wneud cais am grant rydych yn cytuno i dderbyn y telerau ac amodau uchod. Rydym yn derbyn eich bod wedi cytuno i'r amodau a thelerau pan fyddwch yn rhoi marc yn y blwch priodol ar y ffurflen gais a chyflwynwyd i Môn CF.Noder – ni fydd unrhyw taliad yn cael ei wneud gan Môn CF I'r ymgeisydd hyd nes eich bod wedi dychwelyd y dystiolaeth ychwanegol angenrheidiol y cyfeirir ato yn adran 1.
8. Bydd unrhyw arian a bennir yn cael ei wario ar gyfer y dibenion a amlinellir yn eich cais ac yr eitemau y cyfeirir atynt yn eich cais. Rhaid hawlio'r arian erbyn 01/03/2024.
9. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth i Môn CF yng nghyswllt y gweithgaredd neu weithgaredd arfaethedig a'r defnydd a wneir o'r grant yn llawn neu'n rhannol, yn ôl y galw o bryd i'w gilydd.
10. Bydd Môn CF yn disgwyl i bawb sy'n derbyn grant ac yn gyflogwyr neu'n grŵp cymunedol neu'n ddarparwr gwasanaethau, i weithredu polisi Cyfle Cyfartal gwaeth beth fo'u hil, rhyw/hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, unrhyw anabledd.
11. Bydd Môn CF yn meddu'r hawl i addasu, dal yn ôl, neu derfynu'n gyfan neu'n rhannol y grant a/neu ymofyn ad-daliad y grant yn rhannol neu yn gyfan os:
    i. Yw'r ymgeisydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw amod, term neu ddarpariaeth a amlinellir yn y ddogfen Telerau ac Amodau neu Ganllawiau'r cais;
    ii. Yw unrhyw elfen o'r wybodaeth a ddarperir gan, neu ar ran, yr ymgeisydd ar gyfer hawlio'r grant yn anghywir neu'n gamarweiniol, i'r graddau fod Môn CF yn dethol fod y wybodaeth yn hanfodol bwysig i'r cais;
    iii. yw Môn CF yn amau fod yr ymgeisydd a/neu unrhyw un o'i swyddogion yn/neu wedi bod yn gweithredu'n dwyllodrus.

12. Gall Môn CF newid a/neu ddal yn ôl rhywfaint neu holl elfen o'r dyfarniad cyllid a/neu geisio ad-daliad y cyllid ynghyd ag unrhyw log o ddiwrnod y taliad os::

i. Oes gofyn iddynt wneud hyn yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth y DU a/neu Gyngor Sir Ynys Môn neu o ganlyniad i unrhyw ddisgwyliad dan Gyfraith Gymunedol; neu
ii. Yn eu barn hwy bod angen sicrhau fod yr arian a ddosberthir yn unol â'r llythyr hwn ynghyd ag unrhyw gyllid sydd wedi ei dderbyn neu'n debygol o gael ei dderbyn tuag at Brosiect a'i fod yn gymorth Statudol cyfreithiol.

13. Os yw busnes yr ymgeisydd yn stopio masnachu, yn cau lawr yn gyfan gwbl neu'n mynd i ymddatod (gan gynnwys bod yn destun gorchymyn gweinyddu), derbynyddiaeth, methdalwr, trefniant cyfaddawd neu unrhyw drefniant arall yn ymwneud â dyledion y fenter gyda chredydwyr neu os digwydd unrhyw ddigwyddiad tebyg neu gyfatebol i unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir ym mharagraff 15 yma, yna gall Môn CF feddu'r hawl i alw'n ôl gan yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd unrhyw grant a roddwyd i'r ymgeisydd a hefyd atal unrhyw daliadau pellach i'r ymgeisydd neu rywun sy'n gweithredu ar eu rhan (os mae cwmni yw'r ymgeisydd). Bydd unrhyw gyfeirio at gyfanswm y cyllid sydd wedi ei dalu neu am gael ei dalu yn golygu'r swm arian a dalwyd gan Môn CF i'r ymgeisydd hyd at y cyfnod lle daeth y digwyddiadau uchod i'r amlwg.

14. Bydd yr ymgeisydd, yn ddi-dâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Môn CF neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw adeg resymol, ymweld ag eiddo'r ymgeisydd a/neu archwilio unrhyw un o weithgareddau'r ymgeisydd a/neu archwilio'r asedau neu gost y prosiect, eitemau a brynwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid a/neu i archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon yr ymgeisydd ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn swyddogion o'r fath, ymwneud mewn unrhyw fodd â'r defnydd o gyllid gan yr ymgeisydd . Nid yw'r amod hwn yn rhagfarnu ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Môn CF neu unrhyw un o'i staff, gwas neu asiant iddo.

15. Bydd yr ymgeisydd, yn ddi-dâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Môn CF neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw adeg resymol, ymweld ag eiddo'r ymgeisydd a/neu archwilio unrhyw un o weithgareddau'r ymgeisydd a/neu archwilio asedau neu gost y prosiect. eitemau a brynwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid a/neu i archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon yr ymgeisydd ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn swyddogion o'r fath, ymwneud mewn unrhyw fodd â'r defnydd o gyllid gan yr ymgeisydd . Nid yw'r amod hwn yn rhagfarnu ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Môn CF neu unrhyw un o'i staff, gwas neu asiant iddo.

16. Bydd yr ymgeisydd, yn ddi-dâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Môn CF neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw adeg resymol, ymweld ag eiddo'r ymgeisydd a/neu archwilio unrhyw un o weithgareddau'r ymgeisydd a/neu archwilio'r asedau neu gost y prosiect. eitemau a brynwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid a/neu i archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon yr ymgeisydd ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn swyddogion o'r fath, ymwneud mewn unrhyw fodd â'r defnydd o gyllid gan yr ymgeisydd . Nid yw'r amod hwn yn rhagfarnu ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Môn CF neu unrhyw un o'i staff, gwas neu asiant iddo.

17. Bydd yr ymgeisydd yn sicrhau bod y personau sy'n rheoli neu'n dal dogfennau sy'n ymwneud â'r Prosiect yn rhoi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gall fod eu hangen arnynt i archwilwyr Llywodraeth y DU neu Awdurdod Lleol.

18. Os daw'r ymgeisydd yn ymwybodol o ddirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod yr archwiliad o gyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, rhaid iddo hysbysu ei gyswllt Môn CF ar unwaith.

19. Rhaid i'r ymgeisydd gydnabod, trwy gynnwys geiriad priodol (ar ddatganiadau i'r wasg) a brandio (ar gyhoeddusrwydd, deunyddiau cyfathrebu ac arwyddion), y cyfraniad a wneir gan Môn CF i'w weithgareddau. Dylai'r ymgeisydd gysylltu â'i ddolen Môn CF am fanylion pellach.

20. Bydd Môn CF yn gwneud ymdrechion rhesymol i dalu hawliadau'n brydlon, ond nid yw'n derbyn unrhyw atebolrwydd o ran colled sy'n deillio o unrhyw oedi wrth dalu hawliadau neu i'w briodoli i unrhyw ataliad, gostyngiad neu ganslo'r cyllid.

21. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r cyllid a ddarperir at (1) ddibenion plaid wleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol arbennig; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel y nodir yn y Dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn; (8) costau a dynnwyd ac a dalwyd gennych wrth gyflawni'r Dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn Amod 1(b); (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath arall o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri arnom.

22. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn tystio nad oes unrhyw ymgyfreitha neu gyflafareddiad yn gyfredol nac yn yr arfaeth neu, cyn belled ag y gwyddoch, dan fygythiad, sydd wedi neu a allai gael effaith andwyol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau na'ch gallu i barhau i fasnachu fel busnes yng Nghymru.

23. Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych wedi datgelu i ni'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae angen eu datgelu er mwyn ein galluogi i gael darlun cywir a chywir o'ch busnes a'ch materion (cyfredol a darpar) neu y dylid eu darparu i ni. unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid i chi.

24. Trwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn cytuno i gydweithredu'n llawn â'ch person cyswllt Môn CF ac unrhyw weithiwr arall i Môn CF neu ymgynghorydd a benodir gennym ni i fonitro eich defnydd o'r Ariannu a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau.

25. Rhaid i chi gadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn a chywir sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r cais yr ydych wedi'i wneud ac yn ddi-dâl, caniatáu unrhyw un o swyddogion neu swyddogion Môn CF, Swyddfeydd Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn neu Lywodraeth y DU neu'r rhai a enwebwyd ganddi. contractwyr ar unrhyw adeg resymol ac ar rybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) i ymweld â'ch safle a/neu i archwilio unrhyw rai o eich gweithgareddau a/neu i archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon ac y gallai unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill sydd wedi'u storio sydd ym marn resymol swyddog o'r fath fod yn berthnasol mewn unrhyw ffordd i'ch defnydd o'r Arian Grant. Mae'r ymrwymiad hwn heb ragfarn ac yn amodol ar unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Môn CF, Cyngor Sir Ynys Môn neu Lywodraeth y DU neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod.

26. Nid oes dim yn yr Amodau sy'n gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a dynnir gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).

27. Rhaid i chi ein hindemnio yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddioddefwyd neu a dynnwyd gennym ni sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych i gyflawni unrhyw rwymedigaeth yn llawn neu'n rhannol. efallai y bydd yn rhaid i chi i drydydd parti, Môn CF, Cyngor Sir Ynys Môn neu Lywodraeth y DU neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod.

28. Nid oes dim yn yr Amodau sy'n gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a dynnir gennych i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb gyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).

29. Mae'n rhaid i chi ein hindemnio yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddioddefwyd neu a dynnwyd gennym ni sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych i gyflawni unrhyw rwymedigaeth yn llawn neu'n rhannol. efallai y bydd yn rhaid i chi drydydd parti.

Grant Cefnogi Busnes Môn CF - Hysbyseb Preifatrwydd

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer **Grant Cefnogi Busnes** a derbyn unrhyw fath o gymorth busnes bydd angen i Môn CF gael gwybodaeth gennych. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch ynghyd â gwybodaeth am eich busnes. Mae'r gwybodaeth yma'n angenrheidiol er mwyn I ni allu asesu os ydych yn cymhwyso I dderbyn Grant, ac os ydych yn llwyddiannus, er mwyn eich helpu I gael cyllid, derbyn gwasnaethau, cyngor a gwybodaeth.

Sail Gyfreithlon Prosesu

Môn CF fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rannu hefo ni yn cyd destun eich cais am grant. Byddwn yn trin y gwybodaeth mewn dull cyfrinachol er mwyn ein galluogi I asesu os ydych yn gymwys am grant.

Atal Twyll

Cyn y byddwn yn rhoi grant i chi byddwn yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll a cham ddefnyddio arian parod, ac er mwyn cadarnhau pwy ydych chi. Mae'r gwiriadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi i asiantaethau atal twyll trydydd parti. Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn achosi risg o dwyll neu gam ddefnyddio arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r cyllid grant y gwnaethoch gais amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu cyllid grant presennol i chi. Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu gam ddefnyddio arian, a gallai arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi. Os na fyddwch yn llwyddiannus yn eich cais, byddwn yn ysgrifennu atoch gydag amlinelliad o'r rhesymau pam a sut y gallwch ailymgeisio am y cyllid (Os dymunwch).

Math o wybodaeth bersonol

Mae'r wybodaeth a gesglir yn cynnwys enw, cyfeiriad, gwybodaeth gyswllt, gwybodaeth ariannol bersonol (manylion banc busnes) a gwybodaeth am eich busnes. I dderbyn cymorth Grant Cefnogi Busnes Môn CF, mae angen i ni hefyd brosesu gwybodaeth Categori Arbennig ynghylch eich ethnigrwydd neu anabledd i asesu eich cymhwysedd ar gyfer y cynllun. Mae'r data personol yn ymwneud â manylion yr ymgeisydd unigol yn unig.

Pwy fydd â'r hawl i weld eich gwybodaeth?

Bydd y wybodaeth a gesglir ar gael i weinyddwyr technegol y system sy'n cefnogi'r TG. system. Ni fydd gweinyddwyr technegol systemau yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd.
Mae'r wybodaeth a gesglir at ddiben cymorth Môn CF yn cael ei rhannu â'r sefydliadau canlynol at y dibenion a restrir isod:

- gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaeth Grant Cymorth Busnes Môn CF sy'n darparu cymorth i fuddiolwyr;
- gan sefydliadau ymchwil cymdeithasol cymeradwy, i wneud gwaith ymchwil, dadansoddi neu fonitro cyfle cyfartal o wasanaeth Môn CF;
- Cyngor Sir Ynys Môn a/neu staff Archwilio Llywodiraeth y DU.

Beth sydd yn cael ei wneud hefo'ch gwybodaeth?

- Monitro ac adrodd ar nifer yr unigolion a mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a nifer y bobl o wahanol grwpiau sy'n cael eu cefnogi (e.e., gwahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd).
- Sylwch mai dim ond sampl o unigolion a/neu fentrau y bydd sefydliadau/gwerthuswyr ymchwil yn cysylltu â nhw. Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwil/gwerthusiad am eich profiad ar y prosiect, bydd pwrpas y cyfweliad neu'r arolwg yn cael ei egluro i chi, a chewch y dewis i ddweud ie neu na i gymryd rhan. Dim ond ar gyfer ymchwil cymeradwy y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio a byddant yn cael eu dileu unwaith y bydd yr ymchwil gymeradwy hon wedi'i chwblhau.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw gwybodaeth amdanoch?

Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth Cymorth Gwladwriaethol i gadw eich data personol am o leiaf 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ddinistrio'n ddiogel. Os byddwch yn aflwyddiannus yn eich cais, bydd eich gwybodaeth bersonol a roddwyd yn y cais hwnnw yn cael ei gadw am gyfnod o 12 mis yn unol â pholisi cadw gwybodaeth Môn CF.

Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth gwarchod data, mae'r hawl gennych:

- i gael gweld y data mae Môn CF yn cadw amdanoch;
- I ofyn i ni wirio unrhyw wallau yn y data;
- i wrthwynebu (mewn rhai amgylchiadau) i neu gyfyngu ar y prosesus);
- I ofyn (mewn rhai amgylchiadau) I'cg data gael ei 'ddileu';
- i wneud cwyn at Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sydd yn reoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwarchod data

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:-
Customer Contact
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk
Am gymorth hefo unrhyw um o'r hawliau uchod cysylltwch â Môn CF ar 01407 762004.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch Gwybodaeth Chi

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl I unigolion gael wgeld pa wybodaeth sydd gan gyrff cyhoeddus amdanynt. Efallai na fydd y gwybodaeth yr ydych yn ei rannu hefo ni yn dod o dan rheolau'r ddeddf os bydd cais gan aelod o'r cyhoedd i gael y gwybodaeth sydd gennym amdanoch. Y rheswm am hyn yw fod Môn CF yn elusen cofrestredig ac o'r herwydd yn cael ei eithrio rhag gorfod cydymffurfio â'r ddeddf.

Am ragor o fanylion am eich hawliau yn ymwneud â'ch gwybodaeth

Swyddog Diogelu Data
Môn CF
63 Stryd y Farchnad
Caergybi
Ynys Môn LL65 1UN